# Hawl i Gaffael

# RTA1: Hysbysiad tenant o fwriad i hawlio Hawl i Gaffael

Nodiadau: darllenwch y nodiadau yma yn ofalus

Mae'r hysbysiad hwn i'w ddefnyddio gan denantiaid sicr/sicredig Darparwyr Cofrestredig* sy'n dymuno hawlio'r Hawl i Gaffael eu cartrefi.

1. Darllenwch y llyfryn 'Canllaw i'r Hawl i Gaffael'. Gallwch gael copi gan eich landlord.
2. Cynghorir chi i gael eich cyngor cyfreithiol ac ariannol eich hun cyn cwblhau eich pryniant. Sylwer mai chi fydd yn talu am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael y cyngor hwn.
3. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun dylech siarad â'ch landlord.
4. Mae'n bwysig i chi ateb yr holl gwestiynau mor llawn â phosibl.
5. Ar ôl i chi lenwi'r hysbysiad hwn, anfonwch o at eich landlord.
6. Cadwch gopi o'r ffurflen wedi ei llenwi eich hun. Nid yw llenwi'r ffurflen hon yn gwarantu y byddwch yn gallu prynu eich eiddo. Bydd eich landlord yn eich cynghori yn ysgrifenedig a ydych yn gallu prynu'r eiddo dan yr Hawl i Gaffael.
7. Sylwer, os ydych yn y broses o brynu eich eiddo ar hyn o bryd dan yr Hawl i Brynu neu'r Hawl i Brynu a Gadwyd ni allwch barhau i brynu dan yr Hawl i Gaffael oni bai eich bod yn tynnu eich hawliadau eraill yn ôl.
8. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn gywir gan y gall unrhyw wybodaeth ffug arwain at erlyniad.

**Pwysig:**

Rhaid i'r sefydliad hwn warchod yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei drin ac felly gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi ar y ffurflen hon i atal a datgelu twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth, i'r un diben, gyda sefydliadau eraill sy'n ymdrin ag arian cyhoeddus.

Gall y wybodaeth hefyd gael ei defnyddio ar gyfer arolygon ystadegol, sy'n golygu y gallwn drosglwyddo'r wybodaeth hon, yn gyfrinachol, i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac asiantaethau yn gweithio ar ein rhan ni a hwythau.

*Gelwir Cymdeithasau Tai yn Ddarparwyr Cofrestredig hefyd.

## Rhan A: Yr eiddo

| Cyfeiriad yr eiddo y dymunwch ei brynu | Enw eich landlord |
|---|---|
| | |

# Rhan B: Y tenant(iaid)

Rhowch y manylion canlynol am yr **holl denantiaid** sy'n byw yn yr eiddo.

| **Cyfenw** | **Enwau eraill** | **Ai'r eiddo yw unig a phrif gartref y tenant?** (dileer fel sy'n briodol) | **A yw ef neu hi yn dymuno prynu?** (dileer fel sy'n briodol) |
|---|---|---|---|
| | | Ie/Na | Ydy/Na |
| | | Ie/Na | Ydy/Na |
| | | Ie/Na | Ydy/Na |
| | | Ie/Na | Ydy/Na |

NODIADAU:

1. Byddwch yn denant os yw eich enw yn ymddangos ar y cytundeb tenantiaeth, y llyfr rhent neu'r cerdyn rhent.
2. Dim ond os mai'r eiddo yw eich unig a phrif gartref y gallwch hawlio'r Hawl i Gaffael. (Os ydych yn gwneud cais i brynu ar y cyd gyda thenantiaid eraill, dim ond un tenant sy'n gorfod bodloni'r gofyn hwn).
3. Rhaid cael cytundeb unrhyw gyd-denant nad yw'n dymuno cael ei gynnwys yn y pryniant cyn i chi hawlio'r Hawl i Gaffael.
4. Dylai lofnodi Rhan H o'r hysbysiad hwn. Bydd y denantiaeth hon yn dod i ben pan fyddwch yn prynu'r eiddo.

# Rhan C: Aelod(au) o'r teulu yn rhannu'r Hawl i Gaffael

Os dymunwch rannu'r Hawl i Gaffael gydag unrhyw aelod o'ch teulu nad yw'n denant, rhowch y manylion isod.

| | **Aelod o'r teulu 1** | **Aelod o'r teulu 2** | **Aelod o'r teulu 3** |
|---|---|---|---|
| **Cyfenw** | | | |
| **Enwau eraill** | | | |
| **Perthynas â chi** | | | |
| **Ai'r eiddo yw ei unig a phrif gartref?** (dileer fel sy'n briodol) | | | |
| **A ydynt wedi byw hefo chi trwy gydol y deuddeng mis diwethaf?**(dileer fel sy'n briodol) | | | |

Nodiadau

1. Gall eich priod/partner rannu'r Hawl i Gaffael â chi os mai'r eiddo yw ei unig neu brif gartref.
2. Gall aelodau eraill o'ch teulu rannu'r Hawl i Gaffael â chi os mai'r eiddo yw eu hunig neu brif gartref a'u bod wedi byw hefo chi trwy gydol y 12

mis diwethaf (neu gyfnod byrrach a dderbynnir gan eich landlord). Ystyrir unigolyn sy'n byw hefo chi fel eich priod/partner, ond nad yw'n briod â chi mewn gwirionedd, yn aelod o'ch teulu.

3. Gallwch rannu'r Hawl i Gaffael gyda hyd at 3 aelod o'ch teulu nad ydynt yn denantiaid eu hunain.

# RHAN D: Manylion incwm

SYLWER: Mae'r Llywodraeth yn casglu gwybodaeth am incwm pobl sy'n prynu eu cartrefi dan yr Hawl i Gaffael. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i wneud penderfyniadau ar wariant a pholisi yn y dyfodol yng nghyswllt tai cymdeithasol. Cynorthwywch yn y broses hon os gwelwch yn dda trwy ychwanegu eich manylion incwm chi a'ch partner (os yn berthnasol).

**Incwm blynyddol gros** – mae hyn yn **cynnwys** budd-daliadau'r wladwriaeth, **ac eithrio** Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. **Nid yw'n cynnwys** incwm o fuddsoddiadau. Talgrynnwch i fyny neu i lawr i'r bunt agosaf.

| | **Swm** | **Wedi ei ddefnyddio yn y Cais Morgais?** (Dileer fel sy'n briodol) |
|---|---|---|
| **Unigolyn 1** | | Do/Na |
| **Unigolyn 2** | | Do/Na |

**Incwm blynyddol net y prynwr/prynwyr** - Mae hyn yn cynnwys yr **holl** incwm **ar wahân** i Fudd-dal Plant, Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor ac incwm o fuddsoddiadau. Talgrynnwch i fyny neu i lawr i'r bunt agosaf.

| | |
|---|---|
| Enillion misol (ar ôl didynnu treth, yswiriant gwladol ac ati – yn cynnwys credyd treth gwaith ond **nid** yr elfen gofal plant) | |
| **Credyd Treth Plant Wythnosol** (nid yw hyn yn cynnwys Budd-dal Plant) | |
| **Pensiwn Galwedigaethol/Rhanddeiliaid Wythnosol** (gan gynnwys SERPs) | |
| **Budd-daliadau'r Wladwriaeth Wythnosol** (**nid** yw hyn yn cynnwys Budd-dal Plant, Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor) | |
| **Incwm Wythnosol Arall** (**nid** yw'n cynnwys incwm o fuddsoddiadau) | |

**Cynilion**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cynilion y prynwr/prynwyr <u>cyn i unrhyw flaendal gael ei dalu</u>** (talgrynnwch i'r £10 agosaf) | |

# Rhan E: Cymhwyster

Er mwyn bod yn gymwys i gael yr Hawl i Gaffael, rhaid i chi fod wedi bod yn denant sector cyhoeddus am o leiaf bum mlynedd (gweler y nodyn isod). Ond, nid oes raid i chi fod wedi bod yn byw yn eich cartref presennol ers pum mlynedd; gall tenantiaethau sector cyhoeddus blaenorol, gan gynnwys rhai gyda changen o'r lluoedd arfog gyfrif at y cyfnod cymwys.

**1. Y denantiaeth bresennol**

Pryd wnaeth eich tenantiaeth gychwyn (dd/mm/bbbb) _ _/_ _/_ _ _ _

A ydych wedi bod yn denant yn eich cyfeiriad presennol ers pum mlynedd neu fwy? (dileer fel sy'n briodol)

Do – ewch i ran F
Na – ewch i gwestiwn 2

**2. Tenantiaethau blaenorol**

**i) Yr amser y gwnaethoch ei dreulio fel tenant sector cyhoeddus**

| **Dyddiad Dechrau'r Denantiaeth** (mis/blwyddyn) | **Dyddiad Daeth y Denantiaeth i Ben** (mis/blwyddyn) | **Cyfeiriad yr Eiddo** | **Enw'r landlord (neu gangen o'r lluoedd arfog)** |
|---|---|---|---|
| | | | |

Gallwch barhau ar daflen ar wahân os bydd angen.

**ii) Yr amser y gwnaethoch ei dreulio yn byw hefo tenant sector cyhoeddus. Gallwch fod yn briod/partner tenant sector cyhoeddus ac felly fe allech fedru cyfrif y cyfnod hwn tuag at eich cyfnod cymhwyso. Gall yr amser a dreuliwyd yn 16 oed a hŷn yn byw hefo rhiant oedd yn denant sector cyhoeddus gyfrif os gwnaethoch gymryd tenantiaeth sector cyhoeddus eich rhiant drosodd.**

| **Dyddiad Dechrau'r Denantiaeth** (mis/blwyddyn) | **Dyddiad Daeth y Denantiaeth i Ben** (mis/blwyddyn) | **Cyfeiriad yr Eiddo** | **Enw'r landlord (neu gangen o'r lluoedd arfog)** |
|---|---|---|---|
| | | | |

Gallwch barhau ar daflen ar wahân os bydd angen.

Nodyn:

Tenant sector cyhoeddus yw tenant cymdeithas dai, awdurdod lleol neu unrhyw landlord sector cyhoeddus arall.

## Rhan F: Gostyngiad blaenorol

Rhowch fanylion isod am unrhyw bryniant eiddo blaenorol ar ddisgownt gan landlord sector cyhoeddus yr ydych chi (neu eich priod/partner) wedi ei wneud.

| **Cyfeiriad yr Eiddo** | **Enw'r Landlord** | **Enw'r Prynwr** | **Dyddiad y Pryniant** (mis/blwyddyn) | **Y swm o ddisgownt a dderbyniwyd** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Nodyn:
Gall swm unrhyw ddisgownt ar bryniant blaenorol gan landlord sector cyhoeddus, tynnu unrhyw swm a ad-dalwyd wedyn, gael ei dynnu o'r disgownt a ganiateir ar eich pryniant presennol.

## Rhan G: Gwelliannau tenantiaid

Rhowch fanylion isod am unrhyw welliannau yr ydych chi neu unrhyw denantiaid eraill wedi eu gwneud i'r eiddo.

| **Disgrifiad o'r gwelliant** | **Enw'r tenant a wnaeth y gwelliant** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

Nodiadau:

1. Pan fydd yr eiddo yn cael ei brisio i osod y pris, bydd unrhyw welliannau yr ydych wedi eu gwneud yn cael eu hanwybyddu fel bod y pris yn seiliedig ar gyflwr yr eiddo heb eich gwelliannau. Ni fydd rhai gwelliannau yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r pris e.e. addurniadau.

2. Os mai aelod o'ch teulu, neu eich cynbartner/cynbriod, oedd tenant yr eiddo yn union o'ch blaen, bydd unrhyw welliannau a wnaethant i'r eiddo hefyd yn cael eu hanwybyddu.
3. Dylech roi manylion am unrhyw welliannau o'r fath yr ydych wedi eu gwneud os ydych yn meddwl y gallant effeithio ar werth yr eiddo e.e. gwres canolog, gwydr dwbl, cegin wedi ei gosod neu ddodrefn ystafell ymolchi newydd.

## Rhan H: Llofnodion

Cofiwch, os ydych yn fwriadol yn rhoi gwybodaeth ffug y gallech gael eich erlyn

**1. I'w lenwi gan bob tenant sy'n dymuno prynu:**

Rwyf yn hawlio'r Hawl i Gaffael.
Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr hysbysiad hwn yn wir.

| Llofnod | Cyfenw | Enwau Eraill | Dyddiad | Rhif ffôn yn ystod y Dydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**2. I'w lenwi gan bob aelod o'r teulu (nad yw'n denant) sy'n rhannu'r Hawl i Gaffael**

Rwyf yn cytuno i rannu'r Hawl i Gaffael
Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr hysbysiad hwn yn wir.

| Llofnod | Cyfenw | Enwau Eraill | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**3. I'w lenwi gan bob cyd-denant nad yw'n dymuno prynu (bydd eich tenantiaeth yn dod i ben os bydd y pryniant yn mynd yn ei flaen).**

Nid wyf yn dymuno hawlio'r Hawl i Gaffael.
Rwyf yn cytuno i'r prynwr/prynwyr uchod rannu'r Hawl i Gaffael

| Llofnod | Cyfenw | Enwau Eraill | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |